HSC(6) 33-24 PTN 8

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:EM/2843/23

Russell George MS
Cadeirydd Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

**Rheoliadau asesiadau o'r effaith ar iechyd**

5 Ionawr 2024

Annwyl Russell George AS

Rwy'n ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'ch hysbysu bod ymgynghoriad ar y rheoliadau arfaethedig ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wedi'i gyhoeddi ar 29 Rhagfyr 2023. Ar ôl cael ei ohirio gan Brexit a'r ymateb i Covid-19, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n gyflym i ddatblygu set o reoliadau drafft o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd mewn rhai amgylchiadau.

Rheoliadau asesiadau o'r effaith ar iechyd | LLYW.CYMRU

Fel y gwyddoch, mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn adnodd i helpu pobl i asesu'r effeithiau posibl y gallai polisi, rhaglen, neu brosiect eu cael ar iechyd poblogaeth, yn enwedig ar grwpiau sy'n agored i niwed neu o dan anfantais.. Rwyf wedi bod yn ymrwymedig i ymgynghori ar y rheoliadau drafft hyn cyn gynted â phosibl, ac edrychaf ymlaen at gael adborth gwerthfawr gan rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd wrth inni fanteisio ar y cyfle hwn i'n grymuso ni i gyd, fel cyrff cyhoeddus, i ystyried effeithiau ein camau gweithredu ar boblogaethau presennol Cymru a phoblogaethau'r dyfodol.

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 29 Mawrth 2024 a bydd yr ymatebion yn ein galluogi i sicrhau y gall yr offeryn gwerthfawr hwn ein cefnogi a'n siapio i mewn i'r Gymru iachach, hapusach a thecach y mae pob un ohonom yn ymdrechu i'w chyflawni. Yn hyn o beth, Cymru fydd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i osod Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar sail statudol a byddwn yn croesawu cefnogaeth y pwyllgor i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfle hwn.

Yr eiddoch yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.